Bwrdeistref Sirol Conwy
Gwybodaeth am yr Ardal Ddaearyddol a Phoblogaeth

Mae Bwrdeistref Sirol Conwy yng nghanol Gogledd Cymru. Mae gan y Fwrdeistref Sirol arwynebedd o 113,000 hectar a phoblogaeth o 116,250 o breswylwyr (amcangyfrif canol 2015) sydd, gyda 99 o bobl fesul cilomedr sgwâr, wedi ei phoblogi yn llai dwys na Chymru gyfan. Mae tua 38% o'i arwynebedd a 4% o'i boblogaeth o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r llain arfordirol gul yn cynnwys 85% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol gyda Llandudno a Bae Colwyn fel y ddwy brif ardal drefol. Aneddiadau sylweddol eraill yw Abergele, Conwy, Bae Cinmel, Tywyn, Cyffordd Llandudno, Penmaenmawr, Llanfairfechan a Bae Penrhyn. Mae gweddill y sir yn ardal wledig yn bennaf, y prif aneddiadau yw tref farchnad Llanrwst a phentrefi gwasgaredig Betws-y-Coed, Betws yn Rhos, Eglwysbach, Llanfairtalhaiarn, Llansannan, Llangernyw, Pentrefoelas a Cherrigydrudion. Mae ei phoblogaeth wedi gwasgaru yn eang ac yn siaradwyr Cymraeg yn bennaf.

Fel rhan o'r Asesiad Anghenion Lles Lleol a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, mae Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ei rhannu yn bum ardal fel a ganlyn:



Ardal 1 – Gorllewin Arfordirol	Ardal 2 - Creuddyn	Ardal 3 – Canol Arfordirol	Ardal 4 – Dwyrain Arfordirol	Ardal 5 – Gwledig
1. Bryn	5. Conwy	14. Llandrillo yn Rhos	21. Llanddulas	27. Caerhun
2. Pandy	6. Gogarth	15. Mochdre	22. Pentre Mawr	29. Eglwysbach
3. Pant-yr Afon/Penmaenan	7. Mostyn	16. Rhiw	23. Abergele Pensarn	30. Llangernyw
4. Capelulo	8. Tudno	17. Glyn	24. Towyn	31. Betws yn Rhos
	9. Craig-y-Don	18. Eirias	25. Bae Cinmel	32. Llansannan
	10. Deganwy	19. Colwyn	26. Gele	33. Trefriw
	11. Marl	20. Llysfaen		34. Betws-y-Coed
	12. Pensarn			35. Gower
	13. Penrhyn			36. Crwst
	28. Llansanffraid			37. Uwch Conwy
				38. Uwchaled